**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref JJ/02677/20

Janet Finch-Saunders AS
Aelod o'r Senedd
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Government.Committee.Business@llyw.cymru

Copi at: Petitions@Senedd.Cymru

2 Tachwedd 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 13 Hydref ar ôl i'r Pwyllgor Deisebau ystyried deiseb P-05-1007 ar gyfer cyfuno'r Hôb a Chaergwrle yn ward dau aelod yn Sir y Fflint.

Rwy'n deall y pryderon a godir gan y deisebwr ynglŷn â bwrw ymlaen â'r adolygiad hwn, a'r awgrym y dylid atal y gwaith dros dro, tra bo pandemig y coronafeirws yn parhau i gael cymaint o effaith ar ein cymunedau.

Yn fy llythyr dyddiedig 14 Medi, cadarnheais y dull gweithredu a ddefnyddir mewn perthynas â'r rhaglen bresennol o adolygiadau, sy'n ymwneud â phob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Er mwyn sicrhau y bydd yn bosibl gwneud unrhyw newidiadau i'r ffiniau etholiadol cyn cynnal yr etholiadau llywodraeth leol nesaf ym mis Mai 2022, mae angen mynd ati i gwblhau'r adolygiadau, er mwyn i'r Gorchmynion fod mewn grym erbyn diwedd mis Medi 2021. Byddai hynny'n rhoi digon o amser i'r awdurdodau lleol allu gweithredu'r newidiadau.

Er i'r posibilrwydd o atal y broses adolygu dros dro gael ei ystyried, rwy'n credu ei bod yn bwysig sicrhau bod y ffiniau etholiadol yn adlewyrchu'r newidiadau o fewn ardaloedd awdurdodau lleol mos agos â phosibl. Mae angen cyflawni gwaith sylweddol, ac er i COVID-19 beri rhywfaint o oedi, ein nod yw cwblhau'r adolygiadau ac unrhyw Orchmynion angenrheidiol erbyn mis Medi 2021.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran cydlyniant cymunedol, gallaf gadarnhau ei bod yn ofynnol i'r Comisiwn wneud y canlynol, a hynny o dan Adran 30 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (y Ddeddf):

(a) ceisio sicrhau bod yr un gymhareb o etholwyr llywodraeth leol i nifer aelodau'r cyngor sydd i'w hethol ym mhob ward etholiadol o'r brif ardal, neu'n agos at fod felly,

(b) rhoi sylw i'r canlynol –

(i) dymunoldeb pennu ffiniau ar gyfer wardiau etholiadol sydd yn hawdd eu hadnabod ac a fyddant yn parhau felly,

(ii) dymunoldeb peidio â thorri'r cwlwm lleol wrth bennu ffiniau ar gyfer wardiau etholiadol.

Bu'n Comisiwn Ffiniau'n ystyried yr holl sylwadau a ddaeth i law'r comisiwn, cyn llunio ei gynigion terfynol.

Rwyf o'r farn bod y dull gweithredu hwn yn ddigon cynhwysfawr i allu ystyried y materion y mae'r deisebwr yn eu codi.  Wrth adolygu pob un o'r trefniadau etholiadol, byddaf yn ystyried yn ofalus y sylwadau sy'n cael eu cyflwyno gan gymunedau lleol, ochr yn ochr ag ymateb y Comisiwn.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government